## Amodau defnyddio

- Mae'r Cerdyn Rheilffordd hwn ar gyfer Pobl Hŷn y Cymoedd yn rhoi gostyngiad o 50% oddi ar Docynnau Diwrnod Dwyffordd Cyfnodau Tawelach neu Docynnau Diwrnod Dwyffordd Unrhyw Bryd (os nad oes prisiau Cyfnodau Tawelach ar gael) ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru, a hynny ar brif lwybrau lleol Caerdydd a'r Cymoedd, yn amodol ar delerau ac amodau'r cerdyn rheilffordd.
- Rhaid i ymgeiswyr fod dros 60 oed.
- Mae'r cerdyn yn ddilys am flwyddyn ar ôl y dyddiad y bydd yn cael ei roi ac mae modd ei ddefnyddio dim ond ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru ar lwybrau lleol Caerdydd a'r Cymoedd.
- Nid yw'n ddilys rhwng Caerdydd Canolog a Chasnewydd, nac ar wasanaethau i Cheltenham.
- Mae'r holl docynnau yn ddilys ar ôl 09.30. Maen nhw'n cael eu rhoi yn unol ag Amodau Teithio National Rail ac nid oes modd eu trosglwyddo.
- Nid oes modd rhoi cardiau yn lle rhai sydd wedi'u colli neu eu difrodi.
- Nid yw'r cerdyn rheilffordd yn ddilys oni bai ei fod wedi cael ei lofnodi gan y sawl sydd biau'r cerdyn ac nid oes modd ei drosglwyddo i unrhyw un arall. Dim ond y sawl sydd biau'r cerdyn rheilffordd fydd yn gallu defnyddio tocynnau sydd wedi'u prynu gyda cherdyn rheilffordd.
- Nid eich eiddo chi fydd y cerdyn rheilffordd a bydd yn rhaid i chi ei roi i Trafnidiaeth Cymru os bydd gofyn i chi wneud hynny.
- Pan fydd aelod o staff rheilffyrdd yn gofyn, rhaid i'r sawl sydd biau'r cerdyn ddangos cerdyn rheilffordd dilys, neu bydd pris safonol llawn yn daladwy fel pe na bai ganddo docyn rheilffordd.

## Dilysrwydd tocynnau gostyngol

- Caniateir teithio o fewn dilysrwydd arferol y tocynnau sydd wedi'u rhoi, ar yr amod bod gan y teithiwr gerdyn rheilffordd dilys a'i fod yn gallu ei ddangos ar gais.
- Dim ond ar gyfer teithio ar wasanaethau sy'n cael eu gweithredu gan Trafnidiaeth Cymru y bydd tocynnau gostyngol yn ddilys ac ni fyddant yn ddilys pan fydd y cerdyn rheilffordd wedi dod i ben.
- Mae tocynnau yn amodol ar Amodau Teithio National Rail ac mae'r amodau hynny wedi'u rhestru yn y daflen hon.
- Os bydd achos o wrthdaro, bydd yr amodau yn y daflen hon yn berthnasol.
- Gallai'r telerau ac amodau hyn newid. I gael manylion, gofynnwch yn eich gorsaf agosaf sydd â staff.

## Conditions of use

- This Valleys Senior Railcard provides 50% discount on Off-Peak day or Anytime Day (where no Off-Peak fares exist) return tickets on Transport for Wales' services on Valleys and Cardiff local routes, subject to the terms and conditions of the railcard.
- Applicants must be over 60 years.
- The card is valid for one year from the date issued and can only be used on Transport for Wales' services on Valleys and Cardiff local routes.
- Not valid between Cardiff Central and Newport, and services to Cheltenham.
- All tickets are valid after 09.30 and are issued according to the National Rail Conditions of Travel and are non-transferable.
- Lost or damaged cards cannot be replaced.
- The railcard is not valid unless it has been signed by the holder, nor is it transferable to anyone else. Tickets bought with a railcard are for use by the railcard holder only.
- The railcard does not become your property and if requested must be handed in to Transport for Wales.
- When requested by rail staff, the holder must show a valid railcard, otherwise the full standard fare will be payable as if no railcard were held.

## Validity of discounted tickets

- Travel is permitted within the normal validities of the tickets issued provided a valid railcard is held and produced on demand.
- Discounted tickets are only valid for travel on services operated by Transport for Wales and cease to be valid on expiry of the railcard.
- Tickets are subject to the National Rail Conditions of Travel and those conditions listed in this leaflet.
- In the event of conflict, the conditions in this leaflet shall apply.
- Terms and conditions may be subject to change. For details, please check with your nearest staffed station.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cerdyn Rheilffordd y Cymoedd i Bobl Hŷn

Y Cymoedd a gwasanaethau lleol Caerdydd

# Valleys Senior Railcard

Valleys and Cardiff local routes

**Yn ddilys tan 31 Rhagfyr 2020**
**Valid to 31 December 2020**



## Teithiau Gostyngol yn ystod Cyfnodau Tawelach i bobl dros 60 oed

Os ydych chi'n 60 oed neu hŷn, mae gennych chi hawl i Gerdyn Rheilffordd Pobl Hŷn Cymoedd Cymru sy'n rhoi gostyngiad o 50% oddi ar Docynnau Diwrnod **Dwyffordd** Cyfnodau Tawelach neu Docynnau Diwrnod **Dwyffordd** Unrhyw Bryd (os nad oes Prisiau Cyfnodau Tawelach ar gael) ar rwydwaith llwybrau lleol Caerdydd a'r Cymoedd, ac eithrio rhwng Caerdydd Canolog, Casnewydd a Cheltenham (edrychwch ar y map cyferbyn i weld yr ardal sy'n ddilys). Dim ond £12.50 yw pris y cerdyn ac mae'n ddilys am flwyddyn ar ôl y dyddiad y bydd yn cael ei roi.

## Sut mae cael eich Cerdyn Rheilffordd Pobl Hŷn y Cymoedd

Mae'r cerdyn rheilffordd ar gael o unrhyw orsaf Trafnidiaeth Cymru sydd â staff ar rwydwaith llwybrau lleol Caerdydd a'r Cymoedd.

Gellir talu gan ddefnyddio arian parod neu gerdyn debyd/credyd. Cofiwch fynd â phrawf o'ch oedran gyda chi.

Gall ein Gwasanaeth Teithio Busnes dderbyn taliad gyda siec bersonol o hyd. Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi siec bersonol yn daladwy i 'TfW Rail' i Ffurflen Gais Cerdyn Rheilffordd y Cymoedd i Bobl Hŷn, Gwasanaeth Teithio Busnes Trafnidiaeth Cymru, 47 Heol Penarth, Caerdydd CF10 5DJ.

## Ffurflen Gais am Gerdyn Rheilffordd y Cymoedd i Bobl Hŷn

**Dim ond os hoffech dalu am eich cerdyn rheilffordd â siec y dylech lenwi'r ffurflen hon. Gweler drosodd am fanylion.**

Llenwch mewn inc gan ddefnyddio priflythrennau

Teitl Mr / Mrs / Ms / Miss / Arall ______________________

Blaenlythrennau ☐ ☐ ☐ Cyfenw ______________________

Cyfeiriad ______________________

______________________

Tref ______________ Cod post ______________

Rhif ffôn ______________ Rhif ffôn symudol ______________

Llofnod ______________________

E-bost (dewisol) ______________________

Dim ond Trafnidiaeth Cymru fydd yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ac NI FYDDWN yn ei rhannu â thrydydd parti.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn gwybodaeth am gynigion arbennig a chynhyrchion newydd gan Trafnidiaeth Cymru, cofrestrwch i'n cylchlythyr ar-lein trctrenau.cymru/cofrestru**

## Rhagor o wybodaeth (nid i wneud cais am gerdyn rheilffordd)

**trctrenau.cymru**
**Lawrlwythwch ap TfW Rail**

**0333 3211 202** - 0800 – 2000 dydd Llun i ddydd Sadwrn / 1100 – 2000 dydd Sul (codir pris galwad leol ar alwadau i rifau 03 o linellau ffôn BT)

**Cysylltiadau Cwsmeriaid**
Trafnidiaeth Cymru Gwasanaethau Rheilffyrdd
Tŷ'r Santes Fair, 47 Heol Penarth, Caerdydd CF10 5DJ

**Twitter** @TfWrail | **Instagram** @TfWrail | **Facebook** @TfWrail

## Discounted Off-Peak travel for over 60s

If you are 60 or over, you are entitled to a Transport for Wales Valleys Senior Railcard which gives a 50% discount on Off-Peak Day or Anytime Day (where no Off-Peak fares exist) **return** fares on the Valleys and Cardiff local routes network except between Cardiff Central, Newport and Cheltenham inclusive (see map opposite for area of validity). The card costs just £12.50 and is valid for one year from the date of issue.

## How to obtain your Valleys Senior Railcard

The railcard is available from any Transport for Wales staffed station on the Valleys and Cardiff local routes network.

Payment can be made by cash, debit or credit card. Remember to take proof of age with you.

Our Business Travel Serivce can still accept payment by personal cheque. Please send this completed form and personal cheque made payable to "TfW Rail" to: Valleys Senior Railcard Application, Transport for Wales Business Travel Serivce, 47 Penarth Rd, Cardiff CF10 5DJ.

## Valleys Senior Railcard Application Form

**Please only complete this form if you want to pay for your railcard by cheque. See details overleaf.**

Please complete in pen using block capitals

Title Mr / Mrs / Ms / Miss / Other ______________________

Initials ☐ ☐ ☐ Surname ______________________

Address ______________________

______________________

Town ______________ Postcode ______________

Tel No ______________ Mobile No ______________

Signature ______________________

Email (optional) ______________________

Your personal information will only be used by Transport for Wales to process your application and will NOT be shared with third parties.

**If you are interested in receiving information about special offers and new products from Transport for Wales sign up to our newsletter on-line at tfwrail.wales/sign-up**

## Further information (not for railcard applications)

**tfwrail.wales**
**Download the TfW Rail app**

**0333 3211 202** - 0800 – 2000 Monday to Saturday / 1100 – 2000 Sunday (03 calls charged at local rates from a BT line)

**Customer Relations**
Transport for Wales Rail Services
St. Mary's House, 47 Penarth Road, Cardiff CF10 5DJ

**Twitter** @TfWrail | **Instagram** @TfWrail | **Facebook** @TfWrail

# Cerdyn Rheilffordd i Bobl Hyn - rhanbarth dilysrwydd

# Valleys Senior Railcard - area of validity




Mynediad heb stepiau'n bosib i bob platfform. Mae'n bosib fod rampiau sy'n cydymffurfio a / neu lifftiau ar gael.

Step free access to all platforms, compliant access ramps and/or lifts may also be available.

Mynediad rhannol: Mae'n bosib fod mynediad i rai platfformau drwy ddefynddio rampiau sydd â graddiant bas i gymedrol; grisiau, croesfan droed ar draws y rheiffordd neu ddargyfeiriad hir rhwng y platfformau. Efallai y bydd graddiant y ramp rhwng y trên a'r platfform yn rhy serth hefyd i gael ei ddefnyddio. Dim parcio neu barcio cyfyngedig ar gael.

Partial access. Access to some platforms may involve ramps with shallow to moderate gradients, involve steps, use of a foot crossing across the railway or a long detour between platforms. The gradient of the ramp between the train and the platform may also be too steep to be deployed. No or limited parking available.

Nid yw'r orsaf yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, defnyddwyr sgwter symudol neu bobl sydd â lefel symudedd is. Mae mynediad i'r platfform(au) drwy risiau neu ramp(iau) serth.

The station is not suitable for wheelchair users, powered mobility scooter users or persons with reduced mobility. Access to the platform(s) is via steps or steep access ramp(s).

Nid yw Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu hepgoriadau yn y wybodaeth a gyhoeddwyd. Mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a amlinellir.

Transport for Wales Rail Services accepts no liability for any errors or omissions in the information published. Transport for Wales Rail Services reserves the right to make changes to the services and facilities outlined.